**Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg / Strategic Director of Social Care and Education Services**
*Jenny Williams*
**Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) / Head of Education Services (Chief Education Officer)**
*Dr Lowri Vaughan Brown*
**Cyfeiriad Post / Postal Address:** Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN
PO Box 1, CONWY, LL30 9GN

Gofynnwch am / Please ask for:
☎ **01492 575031**

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: 06.09.2021

Annwyl Rhieni / Gofalwyr

**Trefniadau dychwelyd yn ôl Mis Medi**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth dros y flwyddyn heriol ddiwethaf. Yr wyf yn falch o ddweud bod ein holl ysgolion ar agor i bob dysgwr ym mis Medi.

Wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol, mae rhai newidiadau yn eu lle pan fydd rhywun yn profi'n bositif am COVID-19. Mae'r newidiadau yma yn bosibl oherwydd y rhaglen frechu a'r gostyngiad sylweddol yn y nifer sy'n mynd i'r ysbyty ac yn dioddef salwch difrifol oherwydd COVID-19 dros y misoedd diwethaf.

Os yw'ch plentyn yn profi'n bositif am COVID-19 gan ddefnyddio prawf PCR, bydd gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu y GIG yn cysylltu gyda chi, gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd pan archebwyd y prawf PCR. Byddant yn gofyn cwestiynau sydd wedi'u cynllunio i adnabod y rheini sydd wedi bod mewn cyswllt agos gyda'ch plentyn yn ddiweddar yn ogystal â manylion cyswllt eu rhiant/gofalwr os ydynt ar gael. Yna bydd Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â'r cysylltiadau agos hyn i ddarparu cyfarwyddiadau neu gyngor.

Nid oes rhaid i'r rheini sydd o dan 18 oed neu sydd wedi'u brechu'n llawn hunanynysu os ydyn nhw yn cael eu nodi fel cysylltiadau agos. Ond fe fydd Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu gyda nhw i roi gwybod eu bod wedi bod mewn cyswllt agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif. Byddant hefyd yn cael cynnig dau brawf PCR ac yn cael gwybodaeth a chyngor ar sut i leihau'r risg o basio'r feirws i rywun arall. Os yw'ch plentyn yn cael ei nodi fel cyswllt agos, mae dal modd iddyn nhw fynychu'r ysgol oni bai eu bod yn datblygu symptomau neu'n cael cyngor penodol gan Profi, Olrhain, Diogelu i beidio mynd i'r ysgol. Parhewch i roi gwybod i'r ysgol os yw eich plentyn yn profi'n bositif os gwelwch yn dda.

Dear Parents / Carers

**Arrangements for school return September 2021**

I would like to take this opportunity to thank you for your support over the past challenging year. I am pleased to say that all our schools are open for all learners this September.

As we return to school, there are some new arrangements in place when someone tests positive for COVID-19. These changes have been made possible by the vaccination programme and the significant reduction in numbers being hospitalised and suffering severe illness due to COVID-19 over recent months.

If your child tests positive for COVID-19 using a PCR test, NHS Test, Trace, Protect (TTP) will contact you, using the details provided when the PCR test was ordered. They will ask questions designed to identify recent close contacts of your child, and for contact details - if you know them - of the individual or their parent/guardian. TTP will then get in touch with these close contacts to provide instructions or advice.

Those who are under 18 or fully vaccinated are no longer required to self-isolate if they are identified as close contacts. But they will be contacted to let them know that they've been in close contact with someone who has tested positive. They will also be offered two PCR tests and provided with information and advice on how to minimise the risks of onward spread. If your child is identified as a close contact, they can still attend school unless they develop symptoms or are advised otherwise by TTP. Please continue to let the school know if your child tests positive.

Os yw plentyn yn profi'n bositif, dim ond nifer fach o ddisgyblion eraill yn y dosbarth bydd yn cael eu nodi fel cysylltiadau agos. Ond os oes patrwm o achosion efallai bydd Profi, Olrhain, Diogelu yn gofyn i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y sefyllfa a'ch atgoffa o gamau allweddol, gan gynnwys eich cynghori i fod yn wyliadwrus am symptomau newydd y gallai eich plentyn eu datblygu, ac i gadw draw oddi wrth deulu a ffrindiau bregus yn y tymor byr.

Disgwylir y bydd achosion o COVID-19 ar draws ein cymuned dros yr wythnosau nesaf, ond nid yw hyn yn golygu bod COVID-19 yn lledu yn yr ysgol. Parhewch i fod yn wyliadwrus am symptomau. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, archebwch brawf PCR ar gyfer eich plentyn drwy ymweld â www.gov.uk/get-coronavirus-test neu drwy ffonio 119.

**Dylai unrhyw un sydd â symptomau - peswch parhaus newydd, twymyn neu dymheredd uchel, neu colli synnwyr blasu neu arogli, neu wedi sylwi ar newid ynddynt – hynanynysu nes bod canlyniad y prawf wedi eich cyrraedd. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau hunanynysu yn https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu.**

Gofynnir i ddysgwyr i ystyried cymryd prawf os ydyn nhw'n profi unrhyw un o'r symptomau ehangach. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn annog yr unigolyn dan sylw i hunan-ynysu wrth iddynt aros am ganlyniad eu prawf, a dylai plant ac oedolion â dolur rhydd a / neu chwydu aros i ffwrdd o'u hysgol neu eu lleoliad nes eu bod yn rhydd o symptomau am 48 awr hyd yn oed os yw eu COVID- 19 prawf yn negyddol.

**Byddem yn gwerthfawrogi pe gallai pob dysgwr ysgol uwchradd nad yw'n dangos symptomau barhau i gymryd profion llif unffordd rheolaidd ddwywaith yr wythnos a chofnodi'r canlyniadau ar-lein** - Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK (www.gov.uk)

Nid yw'n ofynnol bellach i ddysgwyr ein hysgol uwchradd ddefnyddio gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth. Os yw unrhyw ddysgwyr yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb am resymau personol yn unrhyw le yn yr ysgol/lleoliad, dylid caniatáu iddynt wneud hynny. Os ydi achosion yn cynyddu mewn rhai ardaloedd efallai y byddwn am ailedrych os bydd angen gwisgo gorchuddion gwyneb mewn ysgolion

**Dylai dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a lleoliadau barhau i wisgo gorchuddion wyneb wrth deithio ar gludiant ysgol benodedig a chludiant cyhoeddus.**

Er mwyn parhau i gadw dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn ddiogel, rydym yn annog rhieni/gofalwyr i beidio ag aros ar safle'r ysgol/wrth y giatiau yn hirach na'r angen, yn enwedig wrth ollwng/casglu dysgwyr.

If a child tests positive, only a minority of their classmates will be identified as close contacts. But if there is a pattern of cases TTP may ask us to update you on the situation and remind you of key steps, including advising you to keep an eye out for new symptoms your child may develop, and to stay away from vulnerable family and friends in the short-term.

We do expect that there will be cases of COVID-19 across our community over the coming weeks, but this does not mean that COVID-19 is spreading within the school. Please continue to be vigilant for symptoms. If you are in any doubt, order a PCR test for your child at www.gov.uk/get-coronavirus-test or by calling 119.

**Anyone with symptoms - a new continuous cough, fever or high temperature or loss of, or change in, sense of smell or taste - should remain in self-isolation until the test result is known. You can find the latest information on self-isolation arrangements at www.gov.wales/self-isolation.**

Learners are asked to consider taking a test if they are experiencing any of the wider symptoms. Local Health Boards are encouraging the individuals concerned to self-isolate while they await their test result, and children and adults with diarrhoea and/or vomiting should remain away from their school or setting until they are symptom free for 48 hours even if their COVID-19 test is negative.

**We would appreciate if all secondary schools learners not showing symptoms could continue to take regular rapid lateral flow tests twice a week and report the results online** - Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK (www.gov.uk)

Our secondary school learners are no longer required to use face coverings in the classroom. If any learner wishes to wear a face covering for personal reasons anywhere in the school/setting they will be permitted to do so. If there is a spike in certain areas we may want to revisit whether children are required to wear face coverings in schools.

**Face coverings should continue to be worn by learners in secondary schools and settings when travelling on dedicated school transport and public transport**.

To continue to keep learners and parents/carers safe, we encourage parents/carers not to remain on the school premises/at the gates longer than necessary especially when dropping off/collecting learners.

Byddwn yn parhau i fonitro sefyllfa Conwy. Drwy barhau i ddilyn y mesurau, gallwn i gyd edrych ymlaen at flwyddyn fwy diogel a mwy sefydlog yn ein hysgolion.

Please be assured we will continue to monitor Conwy's position. Through continuing to follow the measures, we can all look forward to a safer and more stable year in our schools.

Gyda llawer o ddiolch am eich cydweithrediad.

With many thanks for your co-operation.

Yn gywir / Yours sincerely

Dr Lowri Vaughan Brown
**Prif Swyddog Addysg/Chief Education Officer**
**Pennaeth Gwasanaethau Addysg/Head of Education Services**

Prif Switsfwrdd / Main Switchboard: 01492 574000
www.conwy.gov.uk
DX 24628 Conwy
Ni ddylid cyflwyno dogfennau llys drwy ffacs
Fax not to be used for serving proceedings
Minigyf neu Ffôn Testun / Minicom or Text Phone: 01492 515892

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi. We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh which will not lead to a delay.*

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

disability confident EMPLOYER